Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| Cyfarfod: | Bwrdd Plismona |
|---|---|
| Lleoliad: | Ystafell Gynhadledd OPCC |
| Dyddiad: | 5 Rhagfyr 2017 |
| Amser: | 14:00 – 17:00 |

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Dafydd Llywelyn, Comisiynydd Heddlu a Throseddu (PCC)<br>Carys Morgans, Pennaeth Staff, OPCC (CM)<br>Mrs Jayne Woods, Prif Swyddog Cyllid, OPCC (JW)<br>Prif Gwnstabl Mark Collins (CC)<br>Dirprwy Brif Gwnstabl Darren Davies (DCC) |
| **Hefyd yn Bresennol:** | Arolygydd Gwyndaf Bowen (GB)<br>Miss Mair Harries, Swyddog Cymorth Gweithredol (MH) |
| **Ymddiheuriadau:** | |

## CRYNODEB GWEITHREDOL O GYFARFOD 21/11/2017

| Rhif Cam | Crynodeb Gweithredol | Cynnydd |
|---|---|---|
| PB 3014 | Cais am y diweddaraf gan swyddog ANPR cyn cyfarfod rhwng y swyddog ANPR a'r PCC ym mis Rhagfyr. | Wedi'i gwblhau |
| PB 3015 | GB i roi Pecyn Toriadau Co-op i'r OPCC. | Wedi'i gwblhau |
| PB 3016 | CoS i geisio adborth gan y CC a PCC yn dilyn trafodaeth Abergwaun. | Wedi'i gwblhau |
| PB 3017 | Y CC i ystyried rhyddhau datblygwr gwe IS&T i weithio ar y wefan gyda'r pennaeth cyfathrebu corfforaethol. | Wedi'i gwblhau |
| PB 3018 | Dogfen grynhoi ar gyfer y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol i'w chyflwyno yng nghyfarfod Cyd-bwyllgor Archwilio Rhagfyr. | Wedi'i gwblhau |
| PB 3019 | Y PCC a CC i drafod gydag Adnoddau Dynol oblygiadau camau blaenorol. | Wedi'i gwblhau |
| PB 3020 | Y CC a'r PCC i godi mater o Ddatblygu Gwers Blwyddyn 6 CSE yn AWPB. | Wedi'i gwblhau |
| PB 3021 | Trefnu cyfarfod gyda Price Waterhouse Cooper. | Wedi'i gwblhau |
| PB 3022 | Grwpiau cymunedol megis Clybiau Ffermwyr Ifanc a grwpiau myfyrwyr i gael eu defnyddio ar y cyd â QAP gyda chyfleoedd profiad gwaith. | Wedi'i gwblhau |
| PB 3023 | Cynllun gweithredu ar gyfer y 12 mis nesaf o QAP i'w gyflwyno i PB ar 19 Rhagfyr. | Wedi'i gwblhau |

## PENDERFYNIADAU YN CODI O GYFARFOD 05/12/2017

| Rhif Penderfyniad | Crynodeb o Benderfyniad | I'w ddatblygu gan |
|---|---|---|
| **PB T2 50** | **Cytunodd PCC a CC i ddyfarnu'r cytundeb i gyflenwi a chynnal Dyfeisiau Aml-Swyddogaeth i Konica Minolta Ltd.** | |
| **PB T2 51** | **Cytunodd PCC a CC i ddyfarnu'r cytundeb ar gyfer Cefnogaeth System Trent i Midland HR.** | |

## 2. Cofnodion cyfarfod Bwrdd Plismona a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd a materion sy'n codi

Cytunodd y Bwrdd, gyda diwygiad i un cam gweithredu, bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn adlewyrchiad gwir a chywir o'r cyfarfod.

## 3. Y Diweddaraf gan y Prif Gwnstabl

Diweddariad Gweithredol

Rhoddodd y CC y diweddaraf i'r Bwrdd ar ystod o faterion gweithredol gan gynnwys lladrad yn Sir Benfro yn arwain at bedwar arestiad ac atafaeliadau cyffuriau ym Mhowys. Nododd y CC y byddai Diwrnod Gweithredu'r Heddlu yn cael ei gynnal ar 22 Rhagfyr ble y bydd gweithgarwch cynyddol ar draws ardal gyfan yr heddlu.

Diweddariad sefydliadol

Rhoddodd y CC drosolwg o faterion sefydliadol allweddol gan gynnwys ardystiad IPLPD ar ddod a'r Diwrnod Gweithredu arfaethedig i'w gynnal yn ddiweddarach ym mis Rhagfyr.

Mae dyddiadau'r bwrdd dyrchafu ar gyfer 2018 wedi'u cytuno a'u dosbarthu.

## 4. Y Diweddaraf gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu

Lleol

Hysbysodd y PCC y Bwrdd o'i fwriad i lansio ymgynghoriad ar y strwythur OPCC ar 07/12/17 sy'n anelu at symleiddio a chynyddu effeithlonrwydd y swyddogaeth. Diolchodd y PCC i adran Adnoddau Dynol DPP am eu cymorth wrth ailstrwythuro'r OPCC.

Diolchodd y PCC i'r swyddogion a fynychodd ddigwyddiad Llangamarch.

**Cam Gweithredu: Anfon llythyr o ddiolch i Arolygydd De Cymru a fynychodd y lleoliad yn Llangamarch.**

Cynigiodd y PCC ddiolch i adran Adnoddau Dynol DPP am eu cymorth wrth ailstrwythuro'r OPCC. Nodwyd bod ymweliad gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Swydd Northampton i weld DPP yn llwyddiant.

<u>Cenedlaethol</u>

Nododd y PCC fod penodi Prif Weithredwr ar gyfer y Gymdeithas Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn parhau. Nododd y CoS ei bod wedi mynychu Briffiad Datganiad Rheoli'r Heddlu ar 04/12/17 ac wedi rhoi adborth ar rai o'r negeseuon allweddol o'r digwyddiad.

**5. Materion i'w trafod**

**a) Cyflwyniad Price Waterhouse Cooper**

Cyflwynodd cynrychiolwyr o Price Waterhouse Cooper gynnig i'r Bwrdd o'u cysylltiad posibl gyda Heddlu Dyfed-Powys.

Yn dilyn y cyflwyniad cafwyd trafodaeth yn ymwneud â manteision ac anfanteision defnyddio Price Waterhouse Cooper, ac a allai'r Heddlu weithredu newidiadau sefydliadol yn fewnol yn hytrach na chyflogi sefydliad allanol.

Trafododd y CC, DCC a PCC yr elfen gost o gyflogi sefydliad allanol i weithredu newidiadau sefydliadol, a thrafodwyd a fyddai gan sefydliad allanol wybodaeth ddigonol o blismona gweithredol i fod yn effeithiol wrth weithredu newidiadau llwyddiannus o fewn yr Heddlu.

**Cam Gweithredu: Ailymweld â chyflwyniad Price Waterhouse Cooper yn PB Ionawr 2018.**

**b) Tendr Dyfeisiau Aml-Swyddogaeth**

Nododd y CC bod y Grŵp Prif Swyddogion yn bwriadu cymeradwyo'r tendr.

**Penderfyniad: Cytunodd y PCC a'r CC i ddyfarnu'r cytundeb i gyflenwi a chynnal y Dyfeisiau Aml-Swyddogaeth i Konica Minolta Ltd.**

**Penderfyniad: Cytunodd y PCC a'r CC i ddyfarnu'r cytundeb ar gyfer Cefnogaeth Trent System i Midland HR.**

**c) Trosedd Wledig**

Cafwyd trafodaeth yn ymwneud â lansio Trosedd Wledig. Nododd y CC bod cynllun gwaith â llinell amser glir wedi'i ddyfeisio yn dilyn y lansiad.

**d) Adroddiad Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi NPAS**

Holodd y PCC yn ymwneud ag effeithlonrwydd Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu yn Nyfed-Powys ac fe'i hysbyswyd bod rhai ardaloedd o'r Heddlu yn elwa o wasanaethau

hofrennydd sydd wedi'u lleoli yn ardaloedd heddluoedd eraill e.e. Swydd Gaer. Nododd y CC bod defnydd ar yr hofrennydd yn cael ei gofnodi gan DPP, a bod £1.1 miliwn o arian y trethdalwyr wedi'i arbed trwy ostwng defnydd ar y NPAS. Cafwyd trafodaeth yn ymwneud â'r defnydd cynyddol o ddronau o fewn ffotograffiaeth o'r awyr a fyddai wedi gofyn am ddefnydd hofrennydd o'r blaen.

**e) Cynigion Ymchwil**

Nododd y CoS fod pum cynnig ymchwil wedi'u derbyn gan yr OPCC i ystyried eu hariannu. Nododd y PCC bod dau yn dod i'r amlwg gan gynnwys un ar Asesiadau Trais Domestig ac un arall ar Iechyd Meddwl.

**Cam Gweithredu: CoS i roi'r cynigion ymchwil sydd wedi'u cyflwyno i'r OPCC i'w hystyried ar gyfer ariannu i CC.**

**6. Unrhyw Fater Arall**

**a) Plismona Gweithredol Y Drenewydd**

Nododd y CC ei fwriad i gael briffiad gyda'r Uwch Dîm Arwain yn ymwneud â'r materion yn y Drenewydd.

Rhoddodd y PCC fanylion ei ymweliad â'r Drenewydd gan gynnwys ei gyfarfod gyda thad dioddefwr trosedd.

**b) Plismona Gweithredol Llanelli**

Holodd y PCC yn ymwneud â phlismona economi'r nos a gweithgareddau cyffuriau yn Ffordd yr Orsaf. Nododd y CC bod panel amlasiantaeth wedi'i ffurfio i fynd i'r afael â materion yn ardal Llanelli yn gyffredinol.

Nododd y PCC fod y Drenewydd a Llanelli yn gyfleoedd da i ddatblygu arweinyddiaeth o fewn y sefydliad er mwyn i'r cyhoedd allu elwa o'r newidiadau.

**c) Ffracio**

Nododd y PCC ei fod wedi derbyn gohebiaeth gan Aelod Cynulliad yn ymwneud â gweithgaredd yr heddlu sydd wedi'i alinio â ffracio. Bydd y PCC yn ei ystyried ac yn ymateb iddo.

Rhoddodd y CFO y diweddaraf i'r Bwrdd ar amryw faterion ariannol a chafwyd trafodaeth yn ymwneud â'r Seminar Cyllid ar 6 Rhagfyr.

| CRYNODEB GWEITHREDOL O GYFARFOD 05/12/17 | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam** | **Crynodeb Gweithredol** | **I'w ddatblygu gan** |

| | | |
|---|---|---|
| **PB 3024** | **Llythyr o ddiolch i'w anfon i Arolygydd Heddlu De Cymru a fynychodd y lleoliad yn Llangamarch.** | **MH** |
| **PB 3025** | **Ailymweld â chyflwyniad Price Waterhouse Cooper yn PB Ionawr 2018.** | **PCC** |
| **PB 3026** | **CoS i roi cynigion ymchwil a gyflwynwyd i'r OPCC i'w hystyried ar gyfer ariannu i'r CC.** | **CoS** |